



URDD GOBAITH CYMRU

Cynllun talu
misol ar gael

£999

**BLAENDAL:
£150**

TAITH CATALUNYA

23-30 GORFFENNAF 2027

- ✓ Parc Hwyl Portaventura
- ✓ Parc Dŵr Waterworld
- ✓ Diwrnod yn Barcelona a Nou Camp
- ✓ Taith Cwch
- ✓ Aros yn Tossa De Mar
- ✓ Diwrnod ar y traeth
- ✓ Gwesty (+ 2 pryd bwyd y dydd) a thrafnidiaeth

BL.9-10



ARCHEBWCH LE HEDDIW!

OES CYMULLUNIAU GEN TI AR GYFER GWYLIAU'R HAF 2027?

Wyt ti ym mlwyddyn 9 neu 10? Eisiau rhywbeth i wneud dros y gwyliau?

Wel, beth am wythnos o wyliau gyda dy ffrindiau mewn gwesty ger Barcelona yng Ngogledd Sbaen?

Cei gyfle i gymdeithasu â ffrindiau o ysgolion eraill, torheulo a hwyl a sbri ar y teithiau canlynol sy'n gynnwysedig yn y pris:

- Diwrnod yn *Parc Hwyl Portaventura*, **un o barciau antur gorau Ewrop**
- Mynediad i **barc dŵr** 'WaterWorld'
- **Taith ar gwch**
- Diwrnod yn **Barcelona**, cerdded *Las Ramblas*, *Magic Fountain of Montjuïc* a siopa!
- Ymweld â **Stadiwm Nou Camp**, Barcelona



Mae'n bosib hefyd bydd rhagor o ymweliadau yn cael eu hychwanegu i'r amserlen, ond byddwn yn dy hysbysu am y rhain maes o law. Byddwn yn teithio drwy Ewrop ar fws moethus o'r safon uchaf, gyda chyfleusterau awyru, DVD, diodydd a thŷ bach.



.....hyn i gynnwys llety mewn gwesty, y teithio, dau bryd y dydd, yr holl weithgareddau a'r ymweliadau ac yswiriant teithio. Mae llefydd ar y daith yma yn gyfyng iawn, felly os hoffet ymuno â ni sicrhau dy fod yn cofrestru dy ddiddordeb heb oedi. Bydd angen i ni dderbyn blaendal o £150. Ac yna 8 taliad o £106.13 dros 8 mis.

Cofia, bydd eisiau i ti fod yn aelod o'r Urdd ac yn medru'r Gymraeg er mwyn bod yn rhan o'r daith yma. Felly, ymaeloda nawr er mwyn manteisio ar yr holl weithgareddau sydd yn cael eu cynnig yn yr ardal!

Am ragor o wybodaeth, neu os hoffet sgwrs am y daith, cysyllta ag

Elen Evans (Rheolwr Cymunedol y De):

elenevans@urdd.org
07976003352



HAVE YOU MADE ANY PLANS FOR SUMMER 2027?

Are you in Year 9 or 10? Looking for something to do during the summer holidays?

How about a week-long holiday with your friends in a hotel near the vibrant city of Barcelona in Northern Spain?

You'll have a great time on the following excursions, which are included in the cost of the holiday:

- Day at PortAventura Park, one of **Europe's best theme parks**
- Entry to WaterWorld **Water Park**
- **Boat trip**
- Day in **Barcelona**, including a walk along Las Ramblas, a visit to the Magic Fountain of Montjuïc, and time for **shopping**
- Visit to **Camp Nou Stadium**, Barcelona



It is possible that further visits and excursions will be added to the itinerary with the possibility of a day trip to Verona or Milan, and we will notify you of this in due course. We will be travelling through Europe on an executive coach of the highest standard, with air conditioning, DVD, drinks and toilet facilities.

COST OF TRIP:

£999

Payment Plan
Deposit: £150

.....to include 5 night stay in a hotel, Two meals a day , travelling, excursions and activities and travel insurance. Places on this holiday are very limited, so if you would like to join us, make sure you register your interest without delay. We will need to receive your deposit of £150. The reminder of 8 payments of £106.13 to be made over 8 months.

Remember, you will need to be an Urdd member and able to speak Welsh fluently to join us on this holiday, so join now and take advantage of all the activities the Urdd has to offer in your area!

For more info, or if you wish to chat about the holiday,
contact;

Elen Evans (South Wales Community Manager)

elenevans@urdd.org

07976003352



TOSSA DE MAR

Mae Tossa de Mar yn dref arfordirol ar y Costa Brava yn Sbaen, sy'n enwog am ei thraethau godidog, y Môr Canoldir, a'i hen dref hanesyddol . Gan gyfuno ymlacio, antur a diwylliant, mae Tossa de Mar yn gyrchfan berffaith i bobl ifanc sy'n chwilio am daith fythgofiadwy. Cewch gyfle i fusnesa ar hyd strydoedd canoloesol, mwynhau awyrgylch bywiog, a chymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau cyffrous!



BARCELONA

Mae Barcelona yn un o ddinasoedd mwyaf bywiog a chyffrous Ewrop, yn enwog am ei diwylliant, ei phensaerniaeth unigryw a'i hawyrgylch Môr Canoldirol. Mwynhewch amser yn crwydro Las Ramblas, sy'n llawn perfformwyr stryd, caffis, siopau a marchnadoedd lleol, gan ei gwneud yn un o atyniadau mwyaf poblogaidd Barcelona.

STADIWM CAMP NOU

Mae Taith Stadiwm Camp Nou yn cynnig cipolwg i un o leoliadau chwaraeon mwyaf eiconig y byd a chartref FC Barcelona. Dysgwch am hanes cyfoethog y clwb, mwynhewch arddangosfeydd rhyngweithiol, a phrofwch awyrgylch y stadiwm sydd wedi croesawu miliynau o ymwelwyr o bob cwr o'r byd. Hyd yn oed i'r rhai sydd ddim yn gefnogwyr pêl-droed, mae'r daith yn cynnig golwg unigryw ar un o leoliadau enwocaf Barcelona.



WATER WORLD

Mae Water World yn un o barciau dŵr mwyaf poblogaidd Costa Brava, yn llawn sleidiau cyffrous, pyllau tonnau ac atyniadau dŵr i bob oedran. P'un ai eich bod yn rasio i lawr fflwmiau , yn mentro ar sleidiau dŵr anferth neu'n ymlacio yn yr haul gyda ffrindiau, mae'n ffordd berffaith o fwynhau. Gyda dewis eang o reidiau a gweithgareddau, mae rhywbeth yma i bawb ei fwynhau.

PORT AVENTURA

Mae PortAventura World yn un o barciau thema mwyaf enwog yn Ewrop, gan gynnig cymysgedd cyffrous o rollercoasters gwefreiddiol, atyniadau, adloniant byw a themau o bedwar ban byd. Gyda rhywbeth at ddant pawb, mae diwrnod ym MhortAventura yn sicr o fod yn un o uchafbwyntiau'r daith, gan greu atgofion bythgofiadwy gyda ffrindiau.



TOSSA DE MAR

Tossa de Mar is a beautiful coastal town on Spain's Costa Brava, famous for its stunning beaches, crystal-clear Mediterranean waters, and charming historic old town. Combining relaxation, adventure, and culture, Tossa de Mar is the perfect destination for young people looking for an unforgettable trip. You'll have the opportunity to explore the picturesque medieval streets, enjoy the lively beachfront atmosphere, and take part in a range of exciting activities!



BARCELONA

Barcelona is one of Europe's most vibrant and exciting cities in Europe. Barcelona is a vibrant Mediterranean city, famous for its culture, architecture, and lively atmosphere. Enjoy time exploring Las Ramblas, Barcelona's most famous boulevard, lined with street performers, cafés, shops, and local markets, making it one of the city's most popular attractions.

CAMP NOU STADIUM

A Camp Nou Stadium Tour offers a fascinating behind-the-scenes look at one of the world's most iconic sporting venues and the home of FC Barcelona. Learn about the club's rich history, explore interactive exhibits, and experience the scale and atmosphere of a stadium that has welcomed millions of visitors from around the world. Even for those who are not football fans, the tour provides a unique insight into one of Barcelona's most famous landmarks.



WATER WORLD

Water World is one of the Costa Brava's most popular water parks, packed with exciting slides, wave pools, and water attractions for all ages. Whether you're racing down thrilling flumes, taking on the park's towering waterslides, or relaxing in the sun with friends, it's the perfect way to cool off and enjoy a fun-filled day.

PORTAVENTURA

PortAventura World is one of Europe's leading theme park resorts, offering an exciting mix of thrilling rollercoasters, family attractions, live entertainment, and themed lands from around the world. With something for every level of adventure, a day at PortAventura is guaranteed to be one of the highlights of your trip, creating unforgettable memories with friends.





GWESTY

Byddwn yn aros yng ngwesty Tossa Beach sydd wrth ymyl y traeth. Mae gan y gwesty gyfleusterau sydd yn addas ar gyfer ein hanghenion gan gynnwys pwll nofio. Bydd ystafell ymolchi breifat ar gyfer pob ystafell. Byddi'n rhannu dy ystafell gyda ffrindiau, ac fel arfer mae'r ystafelloedd yn cysgu 4. Bydd brecwast a phryd bwyd nos yn cael eu darparu gan y gwesty.

NEWIDIADAU

Ceisiwn osgoi unrhyw newidiadau mawr i'r hyn a hysbysir yn y daflen yma, ond cedwir yr hawl i wneud hyn os bydd rhaid. Byddwn yn dy hysbysu am unrhyw newidiadau ac yn rhoi amserlen terfynol y daith i'th rhieni yn ystod y cyfarfod fydd yn cael ei gynnal cyn y daith.



HOTEL

We will be staying in the Tossa Beach Hotel that is a short walk from the beach. The hotel caters for groups of young people, and has facilities that will suit our needs including a pool. You will be sharing your room with friends and each room usually sleeps 4. Each room has a private bathroom. The hotel will provide breakfast and an evening meal.

CHANGES

We will try to avoid any drastic changes to the plans noted in this brochure; however we reserve the right to make changes if we feel it necessary. We will notify you of any changes and provide you with a detailed final itinerary during the meeting for parents which will be held before the trip.

ARCHEBWCH NAWR!



BOOK NOW!

